Cofnodion: Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir Cymru

Cyfarfod 1: 25ain Chwefror 2009 - Ystafell Banw, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys

Presennol:
Dave Lamacraft RSPB
Caroline Wilson SNP
Carrie Rimes CCGC
Gemma Bode GWT
Stuart Smith CCGC
Charles Morgan PONT
Jan Sherry CCGC
Helen Buckingham NT

Ymddiheuriadau:
Sheila Spence Mycolegydd Maes
Chris Tucker FCW
Ivy Berkshire Flora locale
Steven Bladwell RSPB
Trevor Dines Plantlife

Eitem	Trafodaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd
1. Cadarnhau aelodaeth	Angen mwy o gynrychiolaeth o blith y gymuned ffermio ar y grŵp, Echel 2, a chydgysylltydd LBAP o Sir Benfro o ganlyniad i'r adnodd gweundir helaeth	1. JH - Cysylltu â NFU, FUW, FWAG. Hefyd John Westlake o adolygiad Echel 2, rhywun o Tir Gofal, Clandice Brown neu Eleri Wynn wedi'u hawgrymu ond dylid cysylltu â hwy drwy Ann Humble. Cysylltir â chydgysylltwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) drwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) ond dylid cysylltu â Bethan Cox o Sir Benfro ar gyfer y grŵp hwn	Anfonwyd e-bost at FWAG Glenda Thomas, NFU Jennifer Price, FUW Nick Somerfield. Bethan Cox LBAP Sir Benfro, Ann Humble Tir Gofal. NFU a FUW bellach ar restr dosbarthu'r grŵp

2. Cylch Gorchwyl	Rhai pwyntiau bwled o dan bwynt 1 y telerau a'r amodau i'w newid. Gellid ychwanegu pwynt ynghylch WBP yn goruchwylio gwaith monitro i gylch gorchwyl WBP.	2. JH Newidiadau i'r Cylch Gorchwyl: • *Eitem 1* - Dileu'r targedau morol am nad ydynt yn berthnasol. • *Newid pwynt bwled 4 o dan eitem 1* - Nodi anghenion monitro ac argymell blaenoriaethau monitro i alluogi.. • *Newid pwynt bwled 8 Eitem 1* – Cefnogi ac annog ymgysylltiad â phartneriaethau lleol. • *Newid pwynt bwled 9 Eitem 1* – Llunio a chydgysylltu cyngor/canllawiau Cymru gyfan. • *Ychwanegu* – adrodd yn ôl	Cyflawnwyd, dosbarthwyd gyda gwahoddiad cyfarfod 2

		i WBP bob blwyddyn	
3. Nodi camau gweithredu â blaenoriaeth gan ddefnyddio camau gweithredu presennol Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAP) fel canllaw - Glaswelltir	Targedau 4 a 5 - Hoffem wybod faint sy'n cael ei adfer a faint sydd wedi cael ei adfer yn llwyddiannus. Er enghraifft ar ba adeg mae prosiect adfer glaswelltir neu weundir yn newid i darged cyflawni cyflwr. Mae hwn yn hunllef o ran monitro.	3. Grŵp: llunio nodiadau cyngor ar fonitro'r broses o symud o adfer i gyflawni cyflwr. 4. Grŵp Polisi: Gallai canllawiau i bennu'r newid rhwng cael ei adfer ac wedi'i adfer gael eu cynnwys yn Echel 2, y grŵp Polisi i ddatblygu hyn fel rhan o'r cynllun peilot ar gyfer Echel 2.	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi
	Angen i'r safleoedd adfer gael eu dewis yn ofalus i osgoi colli cynefinoedd eraill	5. Grŵp Polisi: Mae angen i gynlluniau Amaeth-amgylchedd yn y dyfodol roi	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi

		ystyriaeth ddwys i ganllawiau ar gyfer safleoedd sy'n briodol ar gyfer adfer.	
	Targed 5 - gallai gwaith ailsefydlu ar dir âr fod yn amhriodol gan fod colledion âr wedi arwain at golli adar fferm. Efallai bod modd nodi ardaloedd lle mae colledion âr yn dderbyniol. Canolbwyntio ar newid glaswelltir wedi'i wella i naill ai glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau neu laswelltir âr.	6. Newid i - "âr lle y bo'n briodol" Carrie i gadarnhau'r geiriad newydd	cyflawnwyd
	Porfeydd rhuddlas a hesg - prif ymdrech i sicrhau cyflwr; y targed adfer yn ofynnol o hyd yn enwedig ar gyfer cael gwared â choed conwydd, ond nid yw ailsefydlu yn ymarferol yn gyffredinol, er ei bod fwy na thebyg yn werth cadw o fewn targed ailsefydlu isel rhag ofn bod angen cysylltu darnau.	7. Carrie, pennu targed sy'n briodol isel ar gyfer ailsefydlu PMGRP	cyflawnwyd
	Yn werth pennu mathau NVC i'r cynefinoedd	8. Carrie i ychwanegu colofn	cyflawnwyd

	gwahanol er mwyn cyfeirio	NVC ychwanegol	
3. Nodi camau â blaenoriaeth gan ddefnyddio camau gweithredu HAP presennol fel canllaw - Gweundir isel	Un cynefin yn unig ond efallai bydd angen ei rannu yn fathau gwahanol o weundir: gweundir gwlyb, gweundir sych, gweundir calchaidd, gweundir twyni tywod (gallai hyn fod o dan grŵp arfordirol)		
	Dim targed adfer, roedd Jan yn meddwl mai targed adfer oedd y targed sicrhau cyflwr mewn gwirionedd. Mae angen mynd i'r afael â hyn i gyfateb i'r 4 math o darged CGB safonol fel eu bod yn cyd-fynd â BARS.	9. Jan a Juliet i edrych ar ddosbarthiadau targed Gweundir	Parhaus, angen sefydlu gwahaniaethau rhwng targedau'r DU a mathau o dargedau safonol a rhoi gwybod i bawb yn ESG yn briodol
	Arolwg Cefn Gwlad diwethaf wedi cofnodi 9000ha, nid yw Jan yn credu bod 3000 ha wedi'i golli, yn fwy tebygol o fod wedi'i gynnwys mewn gwaun uchel	10. Jan yn cael gafael ar y set ddata i gadarnhau	Mae gennyf y data ardal ar gyfer gwaun uchel a gweundir isel ac rwyf wedi gofyn iddynt anfon llinell ffin ucheldir/iseldir ar ffurf GIS. Rwy'n dal i aros i glywed a

			oes ganddynt linell ddigidol y gallaf ei defnyddio.
	Nid yw colledion yn cael eu cofnodi	11. Mae angen i dîm cymorth WBP annog LBAP i gofnodi colledion.	parhaus
	Angen cofrestr o lle y bu ceisiadau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIAs) i gadw cofnod o golledion	12. Grŵp polisi i edrych ar gofrestr o EIAs	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi
	Diffyg gwybodaeth ynghylch colledion	13. Gallai'r grŵp hwn drefnu arolwg sampl ar gyfer gweundir Cymru	Wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu
	Cwyn ynghylch Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth)	14. Juliet i anfon llythyr o amgylch y grŵp	Anfonwyd ar 07.04.09
	Dim ond cyfran fach o SoDdGA a phob ACA sydd wedi cael proses monitro cyflwr ddiweddar (dim ond tua 10% o gyfanswm y gweundir sy'n ddynodedig) - diffyg gwybodaeth ynghylch cyflwr safleoedd anstatudol		
	Gallai Targed 4 wneud rhywbeth tebyg i Gymru	15. Dave i gysylltu â Nigel	?? Cariwyd ymlaen

	ag y gwnaeth RSPB yn Lloegr. Targed 5 - angen gwneud rhagor o waith i gael data i Gymru	Webb i gael methodoleg o'r prosiect HEAP	
4. Targedau/Cynlluniau Gweithredu ar gyfer cynefinoedd CGB newydd - Glaswelltir Calaminaraidd	Nid oes gan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAP) newydd gynllun gweithredu na thargedau, efallai y bydd angen dull gweithredu gwahanol i laswelltiroedd eraill. Sefydlwyd ar safleoedd mwyngloddio metel trwm halogedig a graean bras afonydd halogedig.		
	Adroddiad o Brifysgol Aberystwyth yn edrych ar ddyddodion graean bras gan lifddwr o safleoedd mwyngloddio, goblygiadau o ran rheoli dŵr	16. Jan i anfon adroddiad at Stuart	cyflawnwyd
	Penrhyn Llŷn - ar gyfer ychydig o safleoedd bach yma	17. Dave i anfon gwybodaeth am safleoedd at Stuart	?
	Gellid dechrau drafftio targedau; Mae gan Stuart wybodaeth gymharol dda am y cynefin hwn yng Nghymru, eisoes yn gwybod am yr holl safleoedd gorau (mae'r 4 gorau yn ACA). Daw Stuart â gwybodaeth i'r cyfarfod nesaf. Mae'n siŵr y bydd safleoedd bach eraill na	18. Dave i ddechrau pennu'r ardal hon o laswelltir yng Nghymru, cysylltu â LBAP i holi a oes ganddynt unrhyw	

	wyddom amdanynt, e.e. safleoedd Llŷn Dave, felly mae'n werth holi LBAP i gael darlun mwy cyflawn.	safleoedd.	
	Angen ystyried cyd-destun y DU ar gyfer pennu targedau hefyd	19. Stuart a Carrie, i drafod ar lefel y DU.	Aros am gyfarfod y DU
Materion polisi	Gweler camau gweithredu 4, 5 a 12 uchod	20. Trosglwyddo i'r grŵp polisi	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi
	Adolygiad Echel 2 - angen ffordd o annog mwy o bori gwartheg ar y safleoedd hyn.	21. Trosglwyddo i'r grŵp polisi	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi
	Dylai fod gan y comisiwn coedwigaeth bolisi datblygedig ar gynefinoedd agored	22. Chris Tucker i ddarganfod beth sydd wedi digwydd hyd yma, angen strategaeth gyffredinol	Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wrthi'n datblygu polisïau a chaiff cynefinoedd agored eu cynnwys. Ar hyn o bryd mae gan ranbarthau coedwigoedd strategaethau lleol ar gyfer mannau agored ond cytunaf fod angen swyddog arweiniol ar y polisi cyffredinol a dyma'r hyn y bydd ein polisi yn ei ddarparu. Ni fyddaf yn ymuno â'r cyfarfod yr wythnos nesaf mae'n flin gennyf ond byddaf yn fwy na pharod gwneud hynny yn y dyfodol os oes angen.

	Prinder arian ar gyfer system safleoedd bywyd gwyllt gynhwysfawr anstatudol ledled Cymru. Cynlluniau amaeth-amgylchedd ond ar gael os bydd rhywun yn berchen ar dros 3ha o dir, llawer o ddolydd iseldir yn eiddo i bobl sydd â llai na 3ha. Dim ond arian cyfyngedig gan Flora locale. Yn Sir Fynwy mae cyfran enfawr o laswelltir MG5 yn eiddo i dirfeddiannwyr bach ac mae hyn yn wir am lawer o ardaloedd eraill; gyda'i gilydd byddai'r ardaloedd hyn yn cyfrannu'n helaeth at dargedau BAP. A all cynllun grant CCGC dargedu blaenoriaethau yn ardaloedd LBAP e.e. rheoli MG5 yn Sir Fynwy. Bron fod angen contractwr sydd â'r offer cywir i dorri gwair mewn caeau bach â gatiau bach. Angen dod o hyd i gontractwr a fydd yn blaenoriaethu'r gwaith o dorri gwair mewn caeau bach: Ar Ynys Môn, mae Hilary Kehoe o AGAP yn ymchwilio i hyn	23. Trosglwyddo i'r grŵp polisi 24. Tynnu sylw Elinor CCGC at y mater hwn, gan ei bod yn ymchwilio i'r cynllun Grant	Trosglwyddwyd i'r grŵp polisi Amser amhriodol i aros tan fod y papur ar y cynllun grant yn cael ei gyflwyno i WBPSG8

	Unrhyw gamau gweithredu polisi eraill	25. Anfon at Juliet J.hynes@welshwildlife.org	cyflawnwyd
6. Arian: nodi arian sydd ar gael a beth sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.	Dave RSPB - rhostir mawr South Stack, rhostir arfordirol Ynys Ramsey, a reolir yn bennaf drwy waith NT a CCGC felly dim llawer o wariant ar adnoddau gan RSPB		
	Caroline - Yn mynd i'w ystyried ac anfon deunydd ar gyfer Eryri, arfer bod â phrosiect monitro glaswelltir ond yn annhebygol o barhau o ganlyniad i ailstrwythuro staff		
	Carrie - grŵp cymorth ariannu Saving our Magnificent Meadows - Donna Radley (Donna.Radley@plantlife.org.uk) i lunio rhestr o'r holl brosiectau glaswelltir yn y DU, yn ymchwilio i'r fframwaith ariannu glaswelltir. Gallai fod yn ffynhonnell ariannu sylweddol yn y dyfodol.		
	Stuart - mae CCGC yn ariannu rhai prosiectau		

	eraill yn uniongyrchol e.e. Brith y Gors Mynydd Mawr, safleoedd glaswelltir calchfaen Gogledd Cymru, ynghyd ag ariannu gwaith yn uniongyrchol ar safleoedd statudol.		
	Gemma - llawer o waith adfer glaswelltir parhaus - cafodd prosiect tir comin Wyeswood swm mawr o arian gan CCGC. Gwaith monitro parhaus o ran gosod hadau blodau gwyllt - dywedodd y grŵp y byddai'n dda gweld adroddiad ynghylch hyn. Mae FC yn gwneud gwaith adfer ar weundir ar Lwyfandir Treleg, cymerwyd 6" oddi ar y pridd, wedi'i ffensio a'i bori. Mae'r safle ger SoDdGA cors Clem lle bridiodd y durtur Gymreig ddiwethaf.	26. Bydd Gemma yn casglu gwybodaeth gan Ymddiriedolaethau Natur eraill	cyflawnwyd
	Charles - PONT yn gweithio gyda pherchnogion safleoedd i gael gwaith pori gydag asiantaethau statudol. Ynys Môn, 300ha dros 3 blynedd; ymddiriedolaeth coetir Gwynllŵg;	27. Edrych ar gynnydd prosiect lleiniau ymyl ffordd Powys.	Derbyniwyd diweddariad gan Liz Lewis-Reddy, Ecolegwr Amaethyddol Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn

	Penmynmawr; safleoedd glaswelltir pori Llŷn. Gweundir, ysgrifennwyd cynllun tiroedd comin ar gyfer y prosiect 'forgotten landscapes'. Cynaeafu gweirglodd BBNP. Mae Ivy o Flora locale yn rhedeg cynllun grant ar gyfer dolydd ag ymrwymiad 10 mlynedd, mae gan gynllun grant PONT ar gyfer dolydd ymrwymiad 5 mlynedd. Mae gan Bowys brosiect lleiniau ymyl ffordd.		
	Jan - Tomorrows heathland heritage wedi gorffen. Prosiect gweundir Llŷn; Roedd prosiect 'Life in Common' Gwŷr, nad oedd yn seiliedig ar gynefinoedd yn unig, yn ymwneud â cheisio cyfraniad pobl a oedd yn defnyddio tiroedd comin, ac mae bellach yn dod i ben. Sir Benfro yn edrych ar brosiect cig eidion gweundir. Dim prosiectau mawr newydd ar gyfer gweundir.		
	PONT yn ceisio clustnodi arian, gan ymddiriedolaeth elusennol, i brynu stoc a'i		

	phrydlesu i'r tirfeddiannwr/ffermwr. Byddai'r ffermwr yn rhoi x o stoc ar y tir am gyfnod o x i greu enillion bioamrywiaeth. Gellir bridio a gwerthu stoc cyhyd ag y cedwir maint y fuches yr un peth.		
	Angen i'r dull rheoli ar dir y cyrff cadwraeth eu hunain fod ychydig yn fwy cydgysylltiedig. Dylai'r grŵp hwn hwyluso hyn gobeithio.	28. CCGC i gynnwys PONT yn fwy ar SoDdGA.	parhaus
	Dylai cynlluniau amaeth-amgylchedd fod yn brif ffynhonnell ariannu hefyd. Mae'n bwysig cyfrannu rhywfaint at y peilot amaeth-amgylchedd. Dechrau meddwl am sut y gallem fod am newid gofynion presennol. Bwydo i adolygiad Echel 2. Pawb i edrych ar sylwadau a wnaed eisoes gan aelodau o'r grŵp hwn i adolygiad echel 2. Dod â hwy i'r cyfarfod nesaf fel y gallwn gydlynu dull gweithredu ar gyfer y cynefinoedd hyn.	29. Dave i ddod ag enghreifftiau ar gyfer rhywogaethau. 30. Pawb i ddosbarthu crynodeb o ymatebion perthnasol cyn y cyfarfod nesaf	Cyflawnwyd cyflawnwyd
	Arian canolog NT wedi bod yn ariannu'r		

	prosiect dolydd gwair ers y 4 blynedd diwethaf, i fod i gael dull rheoli addas i denantir. Hefyd i ddyblu'r adnodd i 150ha o laswelltir llawn blodau. Ddim mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd ond arian ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf. Hoffem fod yn fwy cydgysylltiedig â sefydliadau eraill a phrosiectau glaswelltir.		
7. Cyfathrebu â grwpiau'r DU	Gellid anfon unigolyn o'r grŵp hwn at bob grŵp yn y DU ar sail gylchol.	31. Bwydo yn ôl i JNCC drwy WBP ein bod am gynnal grwpiau Cynefin presennol y DU.	parhaus
8. Cyfeirio rhywogaethau	Cytunwyd y byddem yn gohirio hyn tan y cyfarfod nesaf - pan fydd Trevor yn gallu ymuno â ni.		
9. Cyfarfod nesaf	Cytunwyd y byddem yn trafod y canlynol yn ein cyfarfod nesaf:		

	1. Adolygiad Echel 2 Bydd y cyfarfod nesaf yn adolygu'r prif faterion ac yn cytuno ar ymateb i grŵp polisi WBP ar gyfer glaswelltir a gweundir. Bydd Dave Lamacraft yn arwain ar hyn - bydd yn dosbarthu amlinelliad drafft o'r materion allweddol cyn y cyfarfod nesaf. 2. Cynllun strategol ar gyfer gweundir a glaswelltir yng Nghymru. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn cytuno ar gynllun strategol drafft ar gyfer y ddau gynefin - I baratoi ar gyfer hyn: Blaenoriaethu targedau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAPs) glaswelltir a gweundir. Bydd Carrie, Stuart a Jan yn dosbarthu rhestrau diwygiedig cyn y cyfarfod. Cyfeirio rhywogaethau Bydd Trevor yn dosbarthu papurau ac yn arwain		

	ar hyn yn y cyfarfod nesaf. Yn gysylltiedig â'r uchod byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau a chamau gweithredu. Materion allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu'r cynllun: Defnydd presennol o adnoddau - sut rydym yn datblygu ffyrdd cydgysylltiedig ac effeithiol o ddarparu Sut rydym yn cyflwyno adroddiadau - defnyddio BARS Defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes - ardaloedd adar allweddol, ardaloedd planhigion arbennig ac ati		